# Hysbysiad Preifatrwydd Deisebau

1. Cyngor Sir Ynys Môn yw'r rheolydd data ar gyfer y cynllun deisebau.

## Yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn

2. Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw dweud wrthych sut y bydd y Cyngor yn prosesu eich data personol at ddiben cyflawni y cynllun deisebau. Mae gennych hawliau o ran sut y caiff eich data eu casglu a'u defnyddio at y diben hwn. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r hawliau hynny a sut y gallwch eu harfer.
3. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich data personol.
4. Ni chaniateir i'r Cyngor ddefnyddio, casglu na rhannu gwybodaeth bersonol oni bai bod gennym sail gyfreithiol briodol dros wneud hynny. Dim ond er mwyn cyflawni ein swyddogaethau cyfreithiol a swyddogol y byddwn yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth bersonol. Ni fyddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol oni bai y bydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny a lle mae'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud.

## Enw a manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Cyngor

5. Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Diogelu Data i helpu sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol wrth brosesu data personol. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data drwy e-bost yn DPO@ynysmon.llyw.cymru

## Pa ddata personol rydym yn ei gasglu a pham

6. Mae eich data personol yn cael eu casglu a'u defnyddio i gyflawni y cynllun deisebau yn unol â'r polisi sydd wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio eich data personol i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

7. Rydym yn casglu enw, cyfeiriad, e-bost a rhif ffôn trefnwyr deisebau, ac enw, cyfeiriad ac e-bost y rhai sy'n cefnogi deiseb. Mae'n bosibl hefyd bydd angen i ni wirio dyddiad geni unigolion.

## Sut rydym yn defnyddio eich data personol

8. Mae'r Cyngor yn casglu eich data personol i weinyddu y cynllun deisebau ac er mwyn:
    a. gwirio dilysrwydd deisebau yn unol â'r polisi deisebau
    b. cysylltu gyda threfnwyr deisebau, a
    c. gwirio manylion cyswllt y rheiny sy'n cefnogi deisebau.

9. Dim ond unigolion sy'n 16 oed a drosodd , sy'n byw, yn gweithio, yn berchen busnes, yn berchennog tir, neu'n astudio ar yr Ynys all gyflwyno/ gefnogi deiseb. Byddwn yn defnyddio eich data personol i wirio os yw unigolion yn gymwys yn unol â'r polisi.
10. Bydd y Cyngor yn defnyddio data personol trefnwyr deisebau i gysylltu gyda nhw i rannu gwybodaeth neu gyfarwyddiadau yn ystod y broses ddeisebau.
11. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio data personol cefnogwyr deisebau i gysylltu gyda nhw i wirio eu cyfeiriadau e-bost.
12. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi enwau trefnwyr a chefnogwyr deisebau, ond ni fydd yn cyhoeddi manylion cyswllt.

## Sail gyfreithiol dros brosesu'r data

13. Rydym yn defnyddio'r sail gyfreithiol a ganlyn o dan GDPR y DU er mwyn prosesu data personol:
Erthygl 6(1)(c) o GDPR y DU – mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddo.

**Eich hawliau fel gwrthrych dat**

14. Eich data personol chi yw'r data sy'n cael eu casglu, ac mae gennych hawliau sy'n cael effeithio ar yr hyn sy'n digwydd iddynt. Mae gennych yr hawl i weld y data personol y mae'r Cyngor yn eu cadw amdanoch, cael copi ohonynt a gofyn i'r Awdurdod gywiro eich data personol os oes unrhyw wallau neu os ydynt wedi dyddio. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gennych hawl, hefyd, i ofyn i'r Cyngor roi'r gorau i brosesu eich data personol hyd nes y caiff unrhyw wallau eu cywiro, gwrthwynebu prosesu neu drosglwyddo eich data personol neu (yn anaml iawn) eu dileu.
15. Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch prosesu eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data fel y nodir uchod.
16. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hawliau hyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/ neu drwy eu llinell gymorth ffôn 0303 123 1113.

**Gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd**

17. Bydd rhai e-byst awtomataidd yn cael eu hanfon i'r unigolion sy'n cymryd rhan yn y broses e-ddeisebau. Caiff hyn ei wneud i wirio cyfeiriadau e-bost ac i ddiweddaru trefnwyr deisebau ar gynnydd. Er hynny, ni fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud am unigolion sy'n seiliedig ar wneud penderfyniadau awtomataidd yn unig (lle gwneir penderfyniad yn eu cylch gan ddefnyddio system electronig heb gysylltiad dynol) ac sy'n cael effaith sylweddol arnynt.

**Storio, diogelu a rheoli data**

18. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddiogelu a sicrhau diogelwch eich data personol pan fyddwn yn prosesu hyn. Gwnawn hynny drwy gael systemau a pholisïau yn eu lle i gyfyngu ar fynediad i'ch gwybodaeth ac atal ei datgelu heb awdurdod, colled ddamweiniol neu newid eich data. Mae gennym hefyd weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw amheuaeth o dorri rheolau data personol a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys os torrir y gweithdrefnau lle mae'n ofynnol, yn gyfreithiol, i ni wneud hynny.

**Am ba mor hir y bydd y Cyngor yn cadw'r data personol**

19. Bydd y Cyngor yn cadw'r data am 7 mlynedd ac yna'n cael gwared arnynt yn ddiogel. Er hynny, mae'n bosibl bydd copïau o ddeisebau wedi eu cyhoeddi yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol fel cofnod cyhoeddus a'u trosglwyddo i archifdy y Sir o dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus.

**Cwynion a mwy o wybodaeth**

20. Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth, byddwn yn cadw at y gyfraith, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.
Os ydych yn anhapus gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi gweithredu wrth ddefnyddio eich data personol, gallwch wneud cwyn trwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.
21. Os ydych dal yn anfodlon neu'n dymuno cyngor annibynnol ar ddiogelu data, preifatrwydd a rhannu data, gallwch gysylltu â:

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow, Cheshire,
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113 neu 01625 545 745 https://ico.org.uk/

Cyhoeddwyd Hydref 2023

## Atodiad 1. Sail gyfreithlon dros brosesu data personol

| **Data Personol (Erthygl 6 GDPR y DU)**<br>**Gweler [yma am ragor o wybodaeth.]** | | **Data Categori Arbennig (Erthygl 9 GDPR y DU)**<br>**Data categori arbennig yw data personol sydd angen mwy o ddiogelwch oherwydd eu bod yn sensitif.**<br><br>**Er mwyn prosesu data categori arbennig yn gyfreithlon, rhaid i chi nodi sail gyfreithlon dan Erthygl 6 GDPR y DU ac amod ar wahân ar gyfer prosesu dan Erthygl 9. Nid oes rhaid bod cyswllt rhwng y rhain.**<br>**Gweler [yma am ragor o wybodaeth.]** | |
|---|---|---|---|
| Tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol – Erthygl 6(1)(e) | ☐ | Darparu meddyginiaeth ataliol neu alwedigaethol, gofal iechyd a chymdeithasol neu driniaeth, neu reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol – Erthygl 9(2)(h) | ☐ |
| Diogelu buddiannau hanfodol – Erthygl 6(1)(d) | ☐ | Buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu drydydd parti lle nad ydynt yn gallu rhoi caniatâd – Erthygl 9(2)(c) | ☐ |
| Angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol – Erthygl 6(1)(c) | ☒ | Iechyd y cyhoedd - Erthygl 9(2)(i) | ☐ |
| | | Caniatâd Penodol – Erthygl 9(2)(a) | ☐ |
| Caniatâd – Erthygl 6(1)(a) | ☐ | Gwaith Ymchwil – Erthygl 9(2)(j) | ☐ |
| Angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract y mae gwrthrych y data yn barti iddo – Erthygl 6(1)(b) | ☐ | Cyfraith cyflogaeth, nawdd cymdeithasol a diogelwch cymdeithasol -<br>Erthygl 9(2)(b) | ☐ |
| | | | ☐ |
| Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti * - Erthygl 6(1)(f)<br><br>* Gallai Asesiad o Fuddiant Cyfreithlon fod yn orfodol. | ☐ | Angenrheidiol am resymau budd cyhoeddus sylweddol - Erthygl 9(2)(g)<br>Os ydych yn dibynnu ar yr amod budd cyhoeddus sylweddol yn Erthygl 9(2)(g), mae angen i chi hefyd fodloni un o 23 o amodau budd cyhoeddus sylweddol penodol a nodir yn Rhan 2, Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018 (gweler [yma]) | ☐ |
| | | ☐ Dibenion statudol a llywodraethol **(**Paragraff 6).<br>☐ Gweinyddu cyfiawnder a dibenion seneddol (Paragraff 7).<br>☐ Cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal (Paragraff 8).<br>☐ Amrywiaeth hiliol ac ethnig ar lefelau uwch (Paragraff 9).<br>☐ Atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon (Paragraff 10).<br>☐ Gwarchod y cyhoedd (Paragraff 11).<br>☐ Gofynion rheoleiddio (Paragraff 12).<br>☐ Newyddiaduraeth, y byd academaidd, celf a llenyddiaeth (Paragraff 13).<br>☐ Atal twyll (Paragraff 14).<br>☐ Amheuaeth o ariannu terfysgaeth neu wyngalchu arian (Paragraff 15).<br>☐ Cefnogaeth i unigolion ag anabledd neu gyflwr meddygol penodol (Paragraff 16).<br>☐ Cwnsela (Paragraff 17).<br>☐ Diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl (Paragraff 18).<br>☐ Diogelu llesiant economaidd rhai unigolion (Paragraff 19). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ☐ Yswiriant (Paragraff 20).<br>☐ Pensiynau galwedigaethol (Paragraff 21).<br>☐ Pleidiau gwleidyddol (Paragraff 22).<br>☐ Cynrychiolwyr etholedig yn ymateb i geisiadau (Paragraff 23).<br>☐ Datgelu i gynrychiolwyr etholedig (Paragraff 24).<br>☐ Rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig am garcharorion (Paragraff 25).<br>☐ Cyhoeddi dyfarniadau cyfreithiol (Paragraff 26).<br>☐ Gwrth-gyffuriau mewn chwaraeon (Paragraff 27).<br>☐ Safonau ymddygiad mewn chwaraeon (Paragraff 28). | |